

Annwyl rieni a gwarchodwyr

I ddechrau, hoffwn ddiolch i chi am eich ymdrechion yn darparu cyfleoedd dysgu a chefnogaeth i'ch plant adref yn ystod y cyfnod anodd yma.

Ers i ysgolion gau ar gyfer addysg ar Fawrth 20fed, mae'r Cyngor wedi bod yn darparu pecynau 'Grab and Go' ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i ginio ysgol am ddim o 12 canolfan ddosbarthu ar draws y sir. Rhoddwyd y system yma mewn lle fel mesur dros dro i roi amser i sefydlu system fyddai'n cyrraedd mwy o deuluoedd sydd â'u plant yn gymwys i gael cinio ysgol am ddim. Bydd y system dros dro yma yn parhau hyd at a chan gynnwys dydd Gwener, Mai 1af.

O Mai 4ydd ymlaen, bydd y Cyngor yn cyflwyno system Talu Uniongyrchol lle bydd rheini yn derbyn taliad misol yn uniogyrchol i'w cyfrif banc am bob plentyn cymwys yn y teulu. Bydd y taliad yn gyfatebol i £19.50 yr wythnos.

Bydd hyn yn galluogi rhieni i brynu bwyd i'w plant ac yn lleihau'r gofyn i wneud ymweliadau dyddiol i'r canolfanau dosbarthu ar draws y Sir. Bydd y cynllun hefyd yn berthnasol i blant gweithwyr allweddol sy'n derbyn cinio ysgol am ddim a sydd ar hyn o bryd yn mynychu ysgol. Bydd angen i rieni yn yr achos yma dalu am y pryd yn yr ysgol os ydent eisiau pryd o'r ysgol neu ddarparu pecyn bwyd gan ddefnyddio'r cyllid drwy'r cynllun.

Anogir rhieni plant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim i gofrestru drwy gwblhau y ffurflen gofrestru sydd ar gael drwy safle gwe y Cyngor:

[https://myaccount.wrexham.gov.uk/en/service/Free\\_School\\_Meals\\_Direct\\_Payment\\_Application](https://myaccount.wrexham.gov.uk/en/service/Free_School_Meals_Direct_Payment_Application)

[https://fynghyfrif.wreccsam.gov.uk/cy/service/Free\\_School\\_Meals\\_Direct\\_Payment\\_Application](https://fynghyfrif.wreccsam.gov.uk/cy/service/Free_School_Meals_Direct_Payment_Application)

Bydd posib gwenud cais o 9:00am dydd Llun, Ebrill 20fed a bydd yn cau am 5:00pm dydd Gwener, Mai 5ed. Bydd taliadau ar gyfer rhai sy'n gymwys yn cael ei wneud dydd Mercher, Mai 6ed. Ni fydd posib talu yn ystod Mai am geisiadau a wneir ar ol y dyddiad cau uchod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch efo [freeschoolmeals@wrexham.gov.uk](mailto:freeschoolmeals@wrexham.gov.uk)

Yn gywir,

Ian Roberts

Prif Swyddog; Addysg ac Addysg Gynnar